TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Llawr 5, Tŷ South Gate
Stryd Wood
Caerdydd CF10 1EW
029 2167 3434
cyswllt@trc.llyw.cymru
trc.llyw.cymru

5th Floor, South Gate House
Wood Street
Cardiff CF10 1EW
029 2167 3434
contact@tfw.gov.wales
tfw.gov.wales

Russell George AC
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Caerdydd
CF99 1NA

15 Tachwedd 2019

Annwyl Russell

Diolch am eich llythyr. Rwy'n awyddus bod TrC mor agored a thryloyw â phosibl drwy'r amser ac felly rwy'n croesawu'r her deg iawn rydych chi wedi'i chynnig.

Fel y nodoch yn eich llythyr, pennir bod gwybodaeth yng nghofnodion Bwrdd Trafnidiaeth Cymru yn fasnachol sensitif o bryd i'w gilydd. Gall cofnodion hefyd gynnwys gwybodaeth am risgiau presennol a newydd lle nad oes strategaethau lliniaru a chyfathrebu wedi'u datblygu eto ar eu cyfer. Yn benodol mewn perthynas â PRM ac adnewyddu'r fflyd, roedd y cofnodion yn rhoi sylwadau ar y risg y gallai trenau Pacer orfod parhau i fod ar waith y tu hwnt i 31 Rhagfyr 2019. Dim ond rai wythnosau yn ôl y cadarnhawyd yr angen i gadw rhai o'r fflyd Pacer yn 2020. Gan fod hyn wedi'i gadarnhau bellach, mae'r Cofnod perthnasol ar gyfer Gorffennaf 2019 wedi'i ddad-hepgor.

Cafodd y wybodaeth yn y cofnodion ynghylch trosglwyddo asedau CVL ei hepgor gan ei bod yn cynnwys deunydd sensitif mewn perthynas â negodiadau sydd ar y gweill o hyd. Roedd yr hepgoriadau o'r Cytundeb Grant ODP yn seiliedig ar Adran 43(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, sy'n nodi bod gwybodaeth yn wybodaeth esempt pe bai ei datgelu dan y Ddeddf hon yn niweidio buddiannau masnachol unrhyw berson (gan gynnwys yr awdurdod cyhoeddus sy'n ei chadw) neu y byddai'n debygol o wneud hynny.

Yn y naill achos a'r llall, teimlwyd bod angen rhoi'r newyddion diweddaraf i Fwrdd Trafnidiaeth Cymru er mwyn iddo gyflawni ei ddyletswydd i lywio, herio a chraffu ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd perfformiad Trafnidiaeth Cymru, ond pennwyd bod y wybodaeth yn rhy sensitif i gael ei rhyddhau i'r cyhoedd ar y pryd.

Yn amlwg, byddwn yn hapus i drafod hyn yn fanylach gyda chi pe bai hynny'n ddefnyddiol.

Yn gywir

James Price
Prif Weithredwr / Chief Executive

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

National Assembly for Wales
Economy, Infrastructure and Skills Committee

James Price
Prif Swyddog Gweithredol
Trafnidiaeth Cymru

31 Hydref 2019

Annwyl James,

Ysgrifennaf atoch i gadarnhau'r meini prawf a ddefnyddir i wneud penderfyniadau ynghylch y golygiadau a wneir gan Trafnidiaeth Cymru wrth gyhoeddi dogfennau.

Yn amlwg, mae angen golygu rhywfaint o wybodaeth am resymau cyfrinachedd masnachol. Fodd bynnag, mae'r sail resymegol ar gyfer penderfyniadau eraill a wneir ynghylch golygiadau yn llai eglur. Er enghraifft, yng nghofnodion cyfarfod bwrdd Trafnidiaeth Cymru ym mis Gorffennaf, mae'r wybodaeth am Bersonau â Symudedd Cyfyngedig ac adnewyddu'r fflyd wedi'i golygu.

A allech esbonio'r sail resymegol a ddefnyddir gennych i olygu gwybodaeth pan fyddwch yn cyhoeddi dogfennau? Er mwyn ein helpu i ddeall, byddwn yn ddiolchgar pe gallech hefyd egluro sut y mae'r sail resymegol hon yn berthnasol i bob golygiad unigol yn y cofnodion a gyhoeddwyd gan Fwrdd Trafnidiaeth Cymru ym mis Gorffennaf 2019, oherwydd, yn y ddogfen hon, roeddwn yn synnu gweld bod bron yr holl adran ar Bersonau â Symudedd Cyfyngedig a statws adnewyddu'r fflyd wedi'i golygu.

Mae gwefan Trafnidiaeth Cymru hefyd yn cynnwys nifer o ddogfennau sy'n ymwneud â rheoli gwasanaethau rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru. Mae'r rhain hefyd yn cynnwys rhai golygiadau nad oes sail resymegol glir iddynt. Er enghraifft, synnais gweld yn nogfen dylunio cysyniad Cledrau Craidd y Cymoedd, sy'n rhan o'r gwahoddiad i gyflwyno tendrau terfynol, fod nifer o adrannau wedi'u golygu y maent yn ymddangos eu bod yn gysylltiedig ag amseriad y gwaith o uwchraddio Cledrau Craidd y Cymoedd e.e. atodiadau E ac F.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddESS@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddESS
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEIS@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddEIS
0300 200 6565

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech esbonio'r sail resymegol dros bob golygiad a wnaed i wahoddiad masnachfraint y rheilffyrdd i gyflwyno tendrau terfynol, a hefyd y cytundeb grant ei hun.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,

Russell George

Russell George AC

Cadeirydd

Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau